

Rhestr Wirio Hygyrchedd Digidol i Ddefnyddwyr y System Rheoli Cynnwys

Wrth wirio eich tudalennau gwe i weld pa mor hygyrch ydynt, gallwch ddefnyddio'r rhestr hon i'ch helpu i fynd drwy'r ystyriaethau hygyrchedd cyffredin y gallech eu canfod. Dolenni i offer a awgrymir: <https://jump.aber.ac.uk/?slcpt>.

Agwedd	Beth i'w wirio	Offer defnyddiol
Iaith	<ul style="list-style-type: none">• A yw'r testun yn defnyddio'r geiriau symlaf posibl?• A oes yna unrhyw jargon?• A oes yna unrhyw acronymau nad ydynt yn cael eu hesbonio?• A yw unrhyw gyfarwyddiadau i'r defnyddiwr yn glir ac yn syml?• A yw'r sillafu a'r ramadeg yn gywir?	<ul style="list-style-type: none">• Hemingway Editor• Site Spell
Strwythur	<ul style="list-style-type: none">• A oes sawl prif bennawd?• A yw'r penawdau'n cael eu defnyddio yn y drefn gywir?• A oes yna unrhyw destun sy'n ymddangos fel petai'n bennawd ond nad ydyw wedi'i farcio'n iawn fel pennawd?	<ul style="list-style-type: none">• headingsMap• Offer arolygu'r porwr
Trefn	<ul style="list-style-type: none">• A oes yna unrhyw frawddegau hir y byddech chi'n rhedeg allan o wynt pe byddech yn eu darllen ar goedd?• A oes yna unrhyw baragraffau hir sy'n hwy na tua 10 llinell?• A oes yna unrhyw restrau o eitemau mewn paragraff y gellid eu trosglwyddo i fod yn bwyntiau bwled?	<ul style="list-style-type: none">• Hemingway App

Agwedd	Beth i'w wirio	Offer defnyddiol
Dolenni	<ul style="list-style-type: none"> • A oes gan unrhyw ddolenni destun generig megis 'cliciwch yma', 'yma' neu 'rhagor o wybodaeth'? • A ddefnyddir yr un testun ar gyfer sawl dolen? 	<ul style="list-style-type: none"> • SilkTide – Disability Simulator
Tablau	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r tabl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer data? • A oes penawdau ynddo? 	
Delweddau	<ul style="list-style-type: none"> • A oes testun amgen ar gyfer y ddelwedd? • A yw'r testun amgen yn addas? • Os nad oes testun amgen ar gyfer y ddelwedd, a oes rhywbeth arall ar gael ar ei gyfer? (e.e. dolen i dudalen testun plaen) • Os oes testun mewn delwedd, a yw'r testun yn ddarllenadwy? • Os defnyddir lliw mewn delwedd i gyfleu ystyr, a fyddai'r ddelwedd yn dal i wneud synnwyr pe na byddech yn gallu gwahaniaethu rhwng y lliwiau? • Os yw delwedd yn cynnwys graff, a oes tabl o ddata ar gael, neu dudalen ar wahân yn esbonio beth mae'r graff yn ei ddangos? 	<ul style="list-style-type: none"> • Alt Text Tester • Offer arolygu'r porwr
Fideos	<ul style="list-style-type: none"> • A oes capsionau ar gyfer y fideo? • A oes trawsgrifiad testun ar gyfer y fideo? 	
Dogfennau	<ul style="list-style-type: none"> • A oes ffeiliau PDF a DOCX ill dau'n cael eu darparu? • A yw'r ddogfen yn hygyrch? 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhestr Wirio Hygyrchedd Digidol